

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Ymchwiliad un-dydd i farw-enedigaethau yng Nghymru
SB 14 - Bwrdd Iechyd Cwm Taf



TEITL YR ADRODDIAD TROSOLWG

Atal Genedigaethau Marw

SEFYLLFA / DIBEN YR ADRODDIAD

Ymateb i'r "Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol" mewn perthynas â'r Ymchwiliad i Enedigaethau Marw yng Nghymru

CEFNDIR / RHAGAIR

Mae pob genedigaeth farw'n drychineb. Cysylltir genedigaethau marw â lluo o achosion megis mamau iau (dan 25 oed), neu famau hŷn (dros 40 mlynedd), gordewdra (Mynegai Màs Corff sy'n uwch na 35), beichiogiadau lluosol, ysmegu yn ystod beichiogrwydd, cymhlethdodau yn ystod beichiogrwydd megis cyneclampsia, anhwylderau meddygol sy'n bodoli eisoes megis diabetes, anhwylderau'r brych, abnormaleddau cynhenid ac ethnigrwydd. Serch hynny, mewn llawer achos o enedigaeth farw mae'r rheswm yn aros yn anhysbys. Yr un mor ansicr yw'r rhesymau dros yr amrywiadau o ranbarth i ranbarth yn y gyfradd genedigaethau marw, ond mae menywod sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig 1.7 gwaith yn debycach o ddiodef genedigaeth farw na menywod sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf lefel uchel o fynegeion iechyd gwael ar draws ei boblogaeth. Yn ogystal â'r effeithiau corfforol, mae genedigaeth farw'n gallu gadael effaith emosiynol, seicolegol a chymdeithasol ddwfn ar y rhieni a'r teulu i gyd.

Mae pob gwasanaeth mamolaeth ledled y wlad yn adrodd am enedigaethau marw, ac mae'r sgôr ddsbarthu ddiwygiedig wedi arwain at welliant yn y modd o hel data a fydd yn helpu gweithwyr proffesiynol i ddarganfod patrymau a thrwy hynny ddeall pam mae genedigaethau marw yn digwydd. Mae unedau mamolaeth yn adolygu ac yn monitro eu cyfraddau eu hunain hefyd fel y gellir rhoi prosesau a gweithdrefnau ar waith i wella eu gwasanaethau.

Mae darparu gofal mamolaeth ar gyfer menywod sy'n byw yn nalgylch Cwm Taf yn creu heriau sy'n deillio o iechyd gwael y boblogaeth a'r

amddifadedd cymdeithasol sydd yn yr ardal. Mae gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf y ganran uchaf yng Nghymru o enedigaethau ymhlith mamau dan 20 mlwydd oed (10.7%) (WIMD, 2008). Mae hyn, ochr yn ochr ag amddifadedd cymdeithasol, yn gysylltiedig â lefelau uchel o ysmegu, defnyddio alcohol, babanod isel eu pwysau adeg y geni ac afiechydon meddyliol, sydd i gyd ar lefelau uchel yn ardal Cwm Taf. Mae gordewdra yn gyffredin iawn ymhlith darpar famau yng Nghymru, a gwelir lluo o fenywod yn nalgylch Bwrdd Iechyd Cwm Taf (BICT/CTHB) â mynegai màs corff (MMC/BMI) uchel.

Dangoswyd bod gordewdra'n cynyddu amllder cyneclampsia, gwaedlifau cyn geni a diabetes, sydd yn ffactorau a gysylltir â genedigaethau marw.

Nifer y genedigaethau byw yn nalgylch Bwrdd Iechyd Cwm Taf yn ystod 2011 oedd 4310, o'i chymharu â 4345 o enedigaethau byw yn 2010. Bu 16 o enedigaethau marw yn 2011, o'u cymharu â 17 o enedigaethau marw yn 2010. Mae hyn yn cyfateb i 4% o gyfanswm y genedigaethau yn ystod y ddwy flynedd, sy'n is na'r ganran ar gyfer Cymru Gyfan.

Mae'r Ystadegau Cenedlaethol diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar enedigaethau a marwolaethau babanod yn dangos bod 35,952 o fabanod wedi cael eu geni'n fyw, y nifer uchaf mewn blwyddyn ers 1993. Er bod nifer y babanod a anwyd gan fenywod dan 20 mlwydd oed wedi syrthio, bu cynnydd o 50 % yn nifer y babanod a anwyd gan fenywod dros 40 mlwydd oed yn Nghymru. Mae'r duedd genedlaethol yn y gyfradd genedigaethau marw wedi gostwng ers 2000 o 5.4 (2000) i 5.2 (2009) i bob 1,000 o enedigaethau. Mae'r gyfradd genedigaethau marw ar gyfer gefeilliaid wedi syrthio yn ogystal.

Y Sefyllfa Bresennol ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf

Mae Bwrdd Iechyd Cwm Taf yn darparu gofal dan arweiniad ymgynghoryddion a bydwagedd ar gyfer menywod beichiog mewn dau Ysbyty Cyffredinol Dosbarth. Mae menywod sydd â ffactorau risg penodol yn derbyn gofal gan obstetrydd ymgynghorol, ac mae menywod ag anhwylderau meddygol yn derbyn gofal cydranedig a ddarperir gan obstetrydd ar y cyd â ffisigydd neu lawfeddyg arbenigol. Cynigir gofal dan arweiniad bydwraig i fenywod heb ffactorau risg, ac mae cysylltiadau ardderchog rhwng y bydwagedd a'r obstetryddion fel y gellir darparu gwasanaeth cyfannol ac integredig gwydn.

Mae gweithwyr proffesiynol ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf yn gweithredu'n rhagweithiol at leihau'r risgiau i fenywod beichiog, ac maent yn ymwybodol o'r cyfarwyddyd cyfredol a'r argymhellion ynghylch atal genedigaethau marw. Mae'r gweithrediadau canlynol mewn grym gyda golwg ar leihau'r gyfradd genedigaethau marw:

- Mae pob menyw yn derbyn gofal mamolaeth a gofal obstetrig sy'n seiliedig ar ganllawiau NICE ynghylch Gofal Cyn, Yn Ystod ac Ar Ôl Genedigaeth
- Mae gan y Bwrdd Iechyd lu o gyfarwyddiadau penodol sy'n cynnwys cyfarwyddyd ynghylch gofalu am fenywod beichiog sydd â'r anhwylderau canlynol - diabetes, gordewdra, cyn eclampsia ac eclampsia.
- Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfarwyddiadau hefyd yng nghyswllt beichiogiadau lluosol a newidiadau yn symudiadau'r ffetws.
- Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfarwyddyd penodol ynghylch Gofal Cyn Geni sy'n nodi meini prawf penodol ar gyfer trefnu gofal dan arweiniad bydwragedd ac ymgynghoryddion.
- Ar adeg trefnu'r gofal ac yn ystod y cyfnod cyn geni, cynhelir asesiadau risg parhaus ar fenywod, a darperir cynllun rheolaeth clir ar sail anghenion yr unigolyn.
- Mae clinigau cyn geni cyfunol dan arweiniad ffisigydd/llawfeddyg arbenigol ac obstetrydd ar gael i fenywod uchel eu risg, ac mae ymgysylltiadau ardderchog rhwng y gwahanol arbenigeddau.
- Ar ben hyn, cynhelir cysylltiadau rheolaidd rhwng menywod diabetig a'r Nyrs Diabetes Arbenigol trwy gydol eu beichiogrwydd a'r cyfnod cynnar ar ôl y geni.
- Cynhelir mesuriadau o uchder y *fundus* yn ystod pob ymweliad â chlinig cyn geni.
- Darperir sganiadau uwchsain rheolaidd fel mater o drefn ar gyfer menywod â ffactorau risg penodol e.e. mesur babanod sy'n fach o ystyried y dyddiad, hanes o fabanod blaenorol a oedd yn fach o ystyried y dyddiad, anhwylderau meddygol penodol.
- Cynhelir profion goddef glwcos fel mater o drefn ar fenywod diabetig neu fenywod sydd â hanes pendant o ddiabetes yn y teulu.
- Cynhelir adolygiad cyn geni ar fenywod sydd â BMI dros 40 yn y cyfnod cyn geni, a datblygir cynllun rheolaeth clir ar gyfer cyfnod y beichiogrwydd a'r esgoriad.
- Mae menywod â ffactorau risg penodol yn cael eu gweld yn yr Uned Asesu Mamolaeth Dydd, sy'n darparu gofal wedi'i addasu ar gyfer yr unigolyn a mynediad uniongyrchol at gyngor gan ymgynghorydd.

- Cynigir cymorth a chyngor fel mater o drefn yng nghyswllt rhoi'r gorau i ysmegu. Cynigir atgyfeiriad at y Fydwraig Dros Roi'r Gorau i Ysmegu, ac mae rhaglenni rhoi'r gorau i ysmegu personol ar gael ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Mae bydwagedd yn cynnig cyngor a chymorth i bob menyw ynghylch deiet, ysmegu, a chadw'n iach trwy gydol y beichiogrwydd ac yn ystod y cyfnod ôl-geni.
- Cynigir addysg a chymorth trwy gyfrwng dosbarthiadau rhianta rheolaidd.
- Darperir gwasanaeth monitro cardiocograff parhaus yn ystod yr esgoriad ar gyfer menywod sydd mewn perygl uchel o gymhlethdodau obstetrig.
- Mae rhaglenni hyfforddiant ar gael i fydwagedd ac obstetryddion ar sail argymhellion yr Ymchwiliad Cyfrinachol i Iechyd y Fam a'r Plentyn.

Cedwir llygad ar effeithioldeb y modd o roi'r gweithrediadau uchod ar waith yn y ffyrdd canlynol:

Cydrannu gwybodaeth a'r gwersi a ddysgir trwy gyfrwng cyfarfodydd aml-ddisgyblaethol.

- Archwiliadau clinigol
- Adolygiadau clinigol a Dadansoddi Achosion Sylfaenol.
- Defnyddir y dangosfwrdd bydwreigiaeth i wneud cymariaethau a monitro'n barhaus.
- Trefniadau Llywodraethedd y Gyfarwyddiaeth Obstetreg, Gynecoleg ac Iechyd Rhywiol.
- Mae digwyddiadau rhybuddiol (sentinel) – sy'n gallu cynnwys genedigaethau marw – yn arwain at adolygiad gan y Cyfarwyddydd Meddygol a'r Cyfarwyddydd Nyrsio, ac maent yn cael eu hadrodd ymlaen at Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Iechyd.

GWEITHREDIADAU PARHAUS

Mae'r gweithrediadau canlynol yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd o fewn Bwrdd Iechyd Cwm Taf gyda golwg ar yrru'r gyfradd genedigaethau marw ymhellach i lawr:

- Ail-werthuso cynnwys dosbarthiadau rhianta, gyda golwg ar eu gwneud yn fwy perthnasol ac yn fwy hygyrch a sicrhau eu bod yn apelio at ystod ehangach o fenywod beichiog. Rhoi pwyslais cynyddol ar addysg a chyngor ynghylch bwyta'n iach, rhoi'r gorau i ysmegu a sylweddoli pwysigrwydd sicrhau ei bod hi'n bosibl teimlo symudiadau'r ffetws o ddydd i ddydd.
- Adolygu a all dosbarthiadau colli pwysau lleol arwain mwy o bobl at ymuno â dosbarthiadau rhiant er mwyn ehangu eu hapêl.
- Mynd ati'n weithgar i ragnodi triniaeth ddisodli nicotîn ar gyfer pob menyw feichiog sy'n ysmegu.
- Ail-werthuso'r hyfforddiant a roddir i fydwragedd ac obstetryddion yng nghyswllt darganfod arafiad twf yn y groth.
- Datblygu'r rhaglenni hyfforddiant ar gyfer bydwagedd ac obstetryddion ymhellach er mwyn sicrhau mwy o bwyslais ar faterion ym maes iechyd cyhoeddus megis rhoi'r gorau i ysmegu a bwyta'n iach.
- Datblygu siartiau 'cic y ffetws' cyn-enedigol newydd.
- Datblygu argymhellion dros ehangu a gwella gwasanaethau gofal cyn-cenedlu.
- Parhau i archwilio genedigaethau marw 2011 – 2012 er mwyn dod i adnabod y tueddau.
- Archwilio'r profion goddef glwcos a gynhelir.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal canran o enedigaethau marw sy'n is na'r cyfartaledd Cymreig, a hynny er gwaethaf mynegeion iechyd heriol sylweddol ymhlith y boblogaeth. Rydym yn ymdrechu'n barhaus i wella, ac mae safonau'r driniaeth a'r gofal a ddarperir yn y gwasanaethau obstetreg a bydwreigiaeth yn cael eu craffu a'u monitro'n astud trwy gyfrwng strwythurau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd.

Allison Williams, Prif Weithredydd
Bwrdd Iechyd Cwm Taf.

25^{ain} Mai 2012.